

PWYLLGOR CLWB MYNYDDA CYMRU
Plas y Brenin, 14 Medi 2006.

1. **Preseanol: GJ, CJ, AW, GR, JW, MT, MR, DH, JAJ**
2. **Ymddiheuriadau: IapG, AH.**
3. **Ar ddechrau y cyfarfod diolchodd y Cadeirydd am waith parod y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.**
4. **Cyngor Mynydda Prydain:**
 - **bydd y Cadeirydd yn cynrhychioli'r Clwb yn y CCB a Chyfarfod Cymru ar 11 Tachwedd**
 - **y prif fater yn y Pwyllgor ar 9 Medi oedd yr angen i ddarganfod sut mae aelodau'r CMP a chynrhychiolwyr clybiau yn derbyn gwybodaeth am y cyfarfodydd a sut i greu cyfarfod ardal efo pwrpas.**
 - **bydd darlith ym Mangor ar 30 Ionawr – a chyfle i hyrwyddo CMC**
5. **Bydd rhaid i'r Clwb gydymffurfio ag amodau'r grant CIST Cymunedol Chwaraeon trwy brynu meddalwedd a chyhoeddi taflen, neu gymryd risg o ad-dalu'r arian i gyd.**
6. **Gohebiaeth:**
 - **roedd Cyngor Powys wedi cydnabod diffyg cyfeirnodau ar hyd Ffordd y Mynach, dewis daith y Clwb yn y Ganolbarth ym mis Mehefin.**
7. **Cytunwyd cynnig cyfle i arweinwyr cymhwysedig gynnig eu gwasanaethau trwy Wefan y Clwb. Hefyd cytunwyd gofyn i'r holl aelodau am ganiatad cylchredeg ei enwau, cyfeiriadau a rhifau ffon.**
8. **Partneriaeth Gweithgareddau Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru:**
 - **ar ol gohirio taith mis Gorffennaf, roedd peth llwyddiant ym mis Medi. Bydd cyd-gyfarfod ar 10 Hydref, gyda taith arall y gynnar ym mis Tachwedd**
 - **wedyn bydd rhaid ail ystyried y ffordd ymlaen**
9. **Marchnata.:**
 - **trafodwyd papur a baratoiwyd gan yr Is-Gadeirydd.**
 - **cytunwyd ei bod yn amserol ail edrych ar flaenoriaethau'r Clwb, gan gychwyn efo holiadur a chyfarfod agored.**
10. **Y cyfansoddiad :**
 - **cytunwyd cyflwyno cyfres o newidiadau i'r cyfansoddiad yn y CCB**
11. **CCB 2006:**
 - **i'w gynnal yn yr "Oakley Arms, Maetwrog ar 19 Tachwedd 2006, gyda'r CCB am 5.30, y cinio am 7.00 a sioe am 8.30**
 - **yn ogystal bydd cyfle i gynnig prisiau am llyfrau mynydda.**
 - **bydd y Pwyllgor yn cynnig y canlynol fel swyddogion: Cadeirydd – Dylan Huws, Trysorydd – J A Williams, Ysgrifennyddion – Clive James, Maldwyn Roberts ac Iolo ap Gwynn.**
 - **yn amodol ar eu caniatad bydd y Pwyllgor y cynnig yr enwau canlynol ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor : Tegwen neu Medwen Williams, Anita Diamond, Arwel Roberts, Alwen Williams, John Williams, Llew ap Gwent, Allan Hughes a Ceri Jones, gan ofyn i aelodau yn y De gynnig enw hefyd.**
12. **Copa'r Wyddfa. Cytunwyd sgwennu at Awrddurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan argymhell iddynt hepgor defnyddio y gair "Snowdon" ar gyfer y strwythur newydd ar y copa ac iddynt wahodd Eric Jones i'w agor.**

13. Cyfarfodydd nesaf :

- nos Sadwrn 19 Tachwedd 2006 (er mwyn enwebu aelodau i'r Pwyllgor)
- nos Fercher 17 Ionawr 2007.

14. Trafodwyd teithiau ar gyfer y cyfnod nesaf. Nodwyd bydd tua 20 aelod yn ymweld a De Amerig adeg Pasg 2007.